

CYNGHRAIR Y CENHEDLOEDD *gan Sydney Davies, Glyn Ceiriog*

Rwyf wrth fy modd yn darllen hen lyfrau a phapurau, yn enwedig rhai yn ymwneud â'm cefndir teuluol fy hun neu fy mro. Wel, fe ddeuais ar draws cofnodion o bwyllgor a hynny mewn hen 'gopi bwc' (fel y galwai hi, fy mam, y llyfr bach) o'i heiddo. Mae'n rhoi cefndir rhai pethau, ond eto, nid yw'n datgelu popeth - felly, dyma roi'r wybodaeth i'r cyhoedd gan obeithio y bydd rhai ohonoch yn gallu llenwi'r bylchau - cawn weld.

Fe anwyd fy mam ym mhlwy' Llandyfrydog Môn ac yno y bu nes ei phriodas yn ddeg ar hugain oed. Bu wedyn yn y Gytros, yno am dair blynedd cyn symud i sir Gaernarfon. Yn ei hieuentid, 'roedd yn brysur iawn, yn organyddes yng nghapel y Parc ac yn llwyddiannus lawer tro am draethodau yn y Gylchwyl. Mae un ganddi a luniodd ar gyfer Cylchwyl 1920 pan oedd yn bedair ar bymtheg oed - a'r testun? 'Pedr cyn ac wedi'r Pentecost!' Dyma wyth tudalen o ffwsgap hir ar y testun. Dyna ichi ryw syniad ohoni hi a'i chyfnod.

Athrawes yn aelod o'r pwyllgor

Ond yn ôl at y llyfr bach. Yn hwn mae'n rhoi adroddiad o bwyllgor a gynhaliwyd yng Nghaergybi. Un Miss Pugh Jones sydd yn rhoi'r adroddiad, felly rwy'n barnu mai honno oedd yn y Pwyllgor ac yn adrodd yn ôl i Gapel y Parc. Mae un o aelodau presennol y capel yn credu iddi fod yn athrawes yn yr ysgol leol am gyfnod.

Yn llywyddu'r Pwyllgor, cyfeirir at y Parch Prys Owen, ond rhaid darllen tipyn cyn deall beth oedd y Pwyllgor yma. Pwyllgor i drefnu dathliad deng mlynedd Cynghair y Cenedloedd oedd, gyda sôn am y canghennau ym Môn.

Sefydlu'r Cynghair yn 1920

Nid oes dyddiau na blwyddyn ond, o chwilio, ymddengys i'r Cynghair gael ei gychwyn yn 1920, wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf, er bod John Davies yn rhoi 1915 fel dyddiad, felly, mae'n fwy na thebyg, mai rywbryd yn 1929 y cynhaliwyd y Pwyllgor.

Fe roddaf fraslun o'r hyn a drafodwyd. Cynhaliwyd Cennin Pedr yn Awst er mwyn cael mantais o'r 'visitors'. Mae'n debyg mai gwerthu bylbiau oeddynt yn ystod yr haf.

Casglwyd - Caergybi £22-14-3
Bodorgan £2-11-0

Casglwyd £135-16-2 am y flwyddyn - swm da iawn mae'n siwr.

Soniwyd am waith y Pwyllgor Sir, pan ddangoswyd lluniau yn Llangefni gyda chanmoliaeth mawr.

Ar gyfer y Dathlu, bwriadai'r pwyllgor gael pasiant heddwch yng nghastell 'Beaumaris' ym mis Mai. Yn wir, pwyswyd am wythnos ym mis Mai a chofio am Fai 18, dyna



Fy Mam, Jane Elizabeth Lewis gyda'i brawd John Ellis yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

ddiwrnod y neges (neges Ewyllys Da mae'n debyg). Byddid yn rhoi sylw yn yr Ysgolion Sul gan ddefnyddio gwersi'r Ysgol Sul i'r perwyl. Byddai hyn yn barti pen blwydd y Gynghair yn ddeg oed.

'Mae eisiau gosod allan yn ddarluniadol ac yn ddeniadol y syniad o heddwch a chodi arian i dalu dyled gwaith blynedd cyntaf y Gynghair. Rhaid trio cael pob castell yng Nghymru ar gyfer y Pasiant'.

Dywedodd Mr Thomas 'Menai Bridge' y dylai hwn fod yn beth i Sir Fon i gyd ac y gellir ei wneud gydag ymdrech yn 'beth hardd neilltuol'. Yna ychwanegir 'Bwriedir cymryd y Boy Scouts i ddangos heddwch Caradog' (beth oedd hwnnw?)

Yna fe geir adroddiad o anerchiad y Llywydd. Darlennodd eitem o waith Samuel Roberts Llanbrynmair - penderfyniad a basiwyd yn 1850 yn ystyried rhyfel y groes i grefydd a rheswm ac y dylai pawb wneud pob

peth posibl i'w ddiwreiddio o'r byd. (Rwyf wedi methu â chanfod y geiriau yna o eiddo S. R., ond rwy'n dal i chwilio). Dywed 'Rhaid i ninnau ymdrech heddiw i gael buddigoliaeth ar ein gwaith- trio ymlid y pethau sydd yn gwahanu'r cenedloedd i gael heddwch 'fel yr afon a chyfiawnder fel tonnau'r môr'. Yna, mae'n annog yr eglwysi i sefydlu mwy o ganghennau - mae'n rhaid bod nifer ohonynt - a phwysleisia, y Miss Pugh Jones sy'n siarad, bod eisiau bywhau cangen y Parc. Y syndod i mi yw fod canghennau fel hyn yn bod yn yr eglwysi - mae gennyf Adroddiad Capel y Parc am 1934 yn dangos 111 o aelodau. Mae'n siwr y gall rhywun fy ngoleuo, ac sydd hwyrach yn cofio am y canghennau neu wedi clywed sôn amdanynt. Syndod arall yw'r ffaith fod yr un geiriau yn dal mor fyw ag erioed- eisiau heddwch - eisiau inni ddeall ein gilydd - a dyna'r gri wedi nawdeg o flynyddoedd! Tybed a glywodd rhywun o'r darllenwyr am basiant a gynhaliwyd neu ai breuddwyd yn unig a fu? Edrychaf ymlaen am ymateb i'r ychydig wybodaeth yma.

YN EISIAU

Traethodau ac Areithiau R. J. Derfel 1864
Cysyllter ar 01758 701510

YN EISIAU

1 Traed Rhyw Galar, David Williams 1894.
2 Cofiant a Gweithiau Rhys Gwesyn Jones, W.R. Jone 1902.
Cysyllter ar 01874 625767

YN EISIAU

Ôl-rifynnau Llên y Llannau

sef
Eisteddfodau 1970 (gwyrdd)
1981 (glas)
1983 (gwyrdd)
1991 (gwyrdd)
1994 (glas)

(Gan gofio fod y dyddiad cyhoeddi
flwyddyn yn ddiweddarach)
Cysyllter ar 01341 440228

Rhestr o Enillwyr Raffl Cymdeithas Bob Owen

ANGELA LLOYD, 37, Llys y Felin, Manselton, Abertawe
ARTHUR PIERCE, Bryn Haul, 16 Highfield, Yr Amwythig
J. BRIAN JONES, Ffordd Victoria, Hen Golwyn, Conwy
T. JONES, 9 Trewern, Saron, Llandysul
ANN R. JONES, 14 Hen Barc, Llanllechid, Bangor.
ENA THOMAS, Erw Las, Bullham, Hwlfordd
MARAGRET JONES, Llwyn Bach, Heol Nazareth,
Pontiats, Llanelli